Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn (BGC)

Dydd Llun, 10fed Rhagfyr 2018 2:00yp-4:00yp

Tŷ Menai, Parc Menai

COFNODION

ENW	SEFYDLIAD
Ffion Johnstone	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Dyfrig Siencyn	Cyngor Gwynedd
Bethan Russell Williams	Mantell Gwynedd
Sioned Rees	Llywodraeth Cymru
Gary Dohety	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Emyr Williams	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Dr Gwynne Jones	Cyngor Sir Ynys Môn
Siobhan Adams	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Catrin Parry	Gwasanaeth Prawf
Huw Williams	Cyngor Gwynedd
Elizabeth Woodcock	Ymchwilydd Ôl Raddedig
Dilwyn Williams	Cyngor Gwynedd
Ffrancon Williams	Cartrefi Cymunedol Cymru
Sian Williams	Cyfoeth Naturiol Cymru
Sian Purcell	Medrwn Môn

Yn mynychu	
Nonn Hughes	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn
Sian Owen	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn

1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Ymddiheuriadau	
Jerry Hunter	Prifysgol Bangor
Cyng. Llinos Medi Huws	Cyngor Sir Ynys Môn
Shan Morris	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Richie Green	Heddlu Gogledd Cymru
Janet Roberts	Cyngor Gwynedd

Dewi Wyn Jones	Cyngor Gwynedd
Nigel Harrison	Heddlu Gogledd Cymru

1. Cylch Gorchwyl - eitem sefydlog

Dim newidiadau i'w cyflwyno.

Atgoffwyd y Bwrdd o'r pennawd 'Penderfyniadau' yn y cylch gorchwyl sy'n nodi na fydd penderfyniadau'r Bwrdd yn ddilys ond pan gant eu gwneud ar y cyd ac yn unfrydol gan yr holl aelodau, a chyda pob aelod yn bresennol. Penderfynwyd felly bydd penderfyniadau a chytundeb o'r cynlluniau gweithredu arfaethedig angen eu cymeradwyo gan y Gwasanaeth Tân ac Achub yn ogystal, gan eu bod yn absennol. Cytunwyd i gylchredeg y penderfyniadau i'r Gwasanaeth Tân yn dilyn y cyfarfod a disgwyl eu cymeradwyaeth cyn symud ymlaen gyda'r gwaith datblygu o fewn yr is-grwpiau.

1.	Gweithred:	Cylchredeg y penderfyniadau arfaethedig i'r Gwasanaeth Tân

2. Cofnodion i'w cymeradwyo a materion yn codi

Cadarnhawyd bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r trafodaethau.

Ceir grynodeb o'r Pwyntiau Gweithredu a ddeilliodd o'r cyfarfod diwethaf isod:

1. SP i anfon y cyfarwyddyd/ cysylltiadau am yr iaith arwyddo at DJ - **wedi ei gwblhau**
2. JH i rannu'r cais a gyflwynodd i Lywodraeth Cymraeg gydag aelodau'r Bwrdd. JH i gadarnhau pwy oedd ei bwynt cyswllt ar gyfer trafod y cais o fewn y sefydliadau sydd wedi eu cynnwys y cais – **wedi ei gwblhau**
3. Adroddiad ysgrifenedig i'w cyflwyno gan arweinyddion yr is-grwpiau **– Wedi ei gynnwys ar yr agenda**
4. Cofnod o gyfarfodydd yr is-grwpiau i'w rannu gyda'r bwrdd yn y dyfodol – **yn weithredol**
5. Y Bwrdd i ymateb ar y cyd i'r ymgynghoriad Brexit – **Wedi ei gwblhau**

Cyfeiriodd FfW at dudalen 4 o'r cofnodion- sef ymholiad gan GJ am waith sydd eisoes wedi ei wneud ar rhai o'r opsiynau a gyflwynwyd gan FfW (yn ystod y cyfarfod diwethaf). Yn benodol yr opsiwn o edrych yn wrthrychol ar asedau'r Cynghorau / Cyrff Cyhoeddus i bwrpas tai fforddiadwy. Nododd FfW ei fod wedi trafod y gwaith gydag Uwch Reolwr Eiddo CG, a gadarnhaodd bod y gwaith wedi ei gwblhau o safbwynt adeiladau ac nid tir. Cadarnhaodd yn ogystal bod angen gwneud gwaith pellach yn y maes.

3. Cynlluniau gweithredu i'w cyflwyno gan arweinyddion y blaenoriaethau

Amcan 1 - Cymunedau sy'n ffynnu ac yn llewyrchus i'r hirdymor -

Blaenoriaeth yr Iaith Gymraeg

Cyflwynwyd cynllun cyflawni'r Is-grŵp Cymraeg gan NH yn absenoldeb Jerry Hunter.

Sylwadau :

Mynegodd GJ werthfawrogiad o'r gwaith oedd wedi ei gyflwyno gan yr is-grŵp yn gychwynnol. Holwyd am fanylion pellach ar amserlenni a thargedau ayyb. Cytunodd GJ y bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn blaenoriaethu a threialu'r prosiect Arfer.

Cytunodd SW gyda sylwadau GJ a nododd ei bod yn gefnogol iawn o gynnwys y cynllun cyflawni. Holodd SW am aelodaeth yr is-grŵp a sut y bwriedir cynnwys a hysbysu'r cyrff eraill sydd ddim yn rhan o'r grŵp o'u cynlluniau. Nododd NH fod y mater yma wedi codi yn yr is-grwpiau eraill yn ogystal. Bydd yr is-grwpiau yn gallu cynnwys cynrychiolaeth ehangach ble mae hynny'n berthnasol. Bydd hefyd gyfle i rannu cofnodion cyfarfodydd yr is-grwpiau gyda holl aelodau'r BGC.

Cyflwynwyd 3 is-themau yn y cynllun cyflawni:

1. Rhannu Arfer Dda
2. Profiad y Dinesydd
3. Iaith a Thaith Plentyn a'r rhwystrau a wynebir rhag dal eu gafael ar yr Iaith.

Mewn perthynas â'r themau 'Profiad y Dinesydd' sy'n ymwneud â'r cynnig gwasanaeth yn yr Iaith Gymraeg - Nododd DW roedd rhaid i'r sefydliadau ystyried newid meddylfryd / arferiad pobl Cymraeg o ddechrau sgwrs yn y Saesneg cyn y Gymraeg. Awgrymwyd i'r grŵp ystyried llunio cynllun i hyrwyddo hyn ymhellach.

Nododd SP bod angen ystyried symleiddio'r iaith Gymraeg ymysg ein sefydliadau oherwydd bod yr iaith yn gallu bod yn dechnegol ac yn gorfforaethol. Awgrymwyd hefyd bod angen defnyddio'r iaith briodol ar gyfer y cynulleidfaoedd gwahanol.

Holwyd os bu ystyriaeth i anghenion ieithyddol y 3ydd sector pan maent yn cydweithio gyda'r cyrff cyhoeddus. Nododd NH fod y drafodaeth yma wedi cymryd lle yn yr is-grŵp a byddent yn rhoi ystyriaeth i hyn wrth iddynt ddatblygu eu cynllun gweithredu ymhellach.

Diolchwyd i JH am ei gwaith a hefyd i NH am gyflwyno ar ran JH.

Cafwyd cyflwyniad gan Ffrancon Williams, Cadeirydd y grŵp Cartrefi ar gyfer pobl leol.

Roedd y cyflwyniad yn amlinellu pam flaenoriaethwyd yr opsiwn yma gan yr is-grŵp, manylion pellach am y camau gweithredu a'r amserlen, a'r penderfyniadau fydd eu hangen gan y BGC.

Sylwadau:

Cyfeiriodd SW at gysylltiad pwysig rhwng y gwaith yma a gwaith yr is-grŵp newid hinsawdd. Cytunwyd y bydd y cyfle i'r 2 grŵp weithio gyda'i gilydd wrth i'r cynlluniau gweithredu ddatblygu.

Gofynnwyd EW sut y bydd y cynllun yn berthnasol i'r sector breifat dai ac yn dylanwadu ar safonau effeithlonrwydd ynni. Nododd FfW mai'r rheolau adeiladu sy'n gosod safonau ac yn dylanwadu ar effeithlonrwydd ynni yn y sector preifat dai, ac na fyddai'r cynllun hon yn effeithio'r sector breifat dai.

Holodd GJ os yw'r is-grŵp yn ystyried cynnwys cymdeithasau tai eraill yn y cynllun. Nododd FfW mai'r bwriad oedd agor y cynllun fyny i gymdeithasau tai eraill oedd yn gweithredu yng Ngwynedd a Môn.

Adnoddau - Nododd FfW fod yr is-grŵp yn rhagweld y bydd angen adnodd ychwanegol weithredu'r cynllun yn effeithiol. Adnabuwyd bod angen rheolwr project 1-2 diwrnod yr wythnos i weithio ar y cynllun. Gwnaethpwyd cais gan y Bwrdd am baratoi papur sy'n amlinellu'r adnoddau a ragwelir sydd eu hangen i gyflawni gwaith yr is-grwpiau, ynghyd ag opsiynau cyd-ariannu'r adnoddau. Penderfynwyd yn ogystal y bydd Cyngor Sir Ynys Môn, Gwynedd a CCG yn trafod opsiynau ariannu / darparu rheolwr prosiect.

Cytunodd FfW yn ogystal i gysylltu gyda SM o'r Gwasanaeth Tân i drafod y cynllun ymhellach, gan nad oeddent wedi gallu bod yn bresennol i glywed y cyflwyniad.

2.	Gweithred:	NH i baratoi papur sy'n amlinellu'r adnoddau a ragwelir sydd eu hangen i gyflawni gwaith yr is-grwpiau, ynghyd ag opsiynau cyd-ariannu'r adnoddau.

Cafwyd diweddariad gan Bethan Williams, arweinydd y grŵp effaith tlodi ar lesiant ein cymunedau.

Sylwadau :

Cyfeiriwyd at weithdy tlodi a gynhaliwyd ar 20.9.18. Nododd DW ei fod wedi disgwyl i'r gweithdy adnabod pwyntiau gweithredu i'r is-grŵp eu blaenoriaethu. Cydnabuwyd bod tlodi yn faes eang a chymhleth

Cyflwynodd BW y weithred o gynnwys tlodi yn asesiadau effaith y sefydliadau. Cytunodd y grŵp y bydd Asesiad effaith yn ddefnyddiol, ond pwysleiswyd bod angen osgoi dyblygu gwaith. Cynigodd SA cefnogaeth i'r is-grŵp gan Dafydd Gwynne, Iechyd Cyhoeddus i ddatblygu templed Asesiad Effaith Cydraddoldeb.

Cafwyd diweddariad gan Sian Williams, arweinydd y grŵp effaith newid hinsawdd ar lesiant cymunedau.

Nododd SW yn dilyn y gweithdy newid hinsawdd cafodd ei gynnal ym mis Gorffennaf prif dasg yr is-grŵp fydd dadansoddi'r holl sylwadau/syniadau a'u trosglwyddo i weithredoedd tymor hir/ byr.

Cyfeiriwyd at y gwaith Mapio GIS a bod cyfoeth naturiol am ariannu'r prosiect yn gychwynnol ac am ofyn i'r Bwrdd am gefnogaeth i'w ddatblygu. Byddent yn cadarnhau'r costau arfaethedig yn y Bwrdd nesaf.

Cytunwyd yn ogystal i gydlynu ymateb y BGC i'r ymgynghoriad Cynllun Ymaddasu Newid Hinsawdd ar gyfer Cymru

Amcan 2 - Trigolion sy'n iach ac yn annibynnol gyda safon bywyd da

Cafwyd diweddariad gan Ffion Johnstone, arweinydd y grŵp Integredig Iechyd a gofal

Nododd FfJ yn cyfarfod cychwynnol yr is-grŵp yn fis Mehefin, a bod gweithdy wedi ei gynnal ar 29ain Dachwedd. Cyfeiriodd FfJ at yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru, a Chynllun Llywodraeth Cymru: Cymru Iachach: Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Cadarnhawyd bod gan Fwrdd Partneriaeth Ranbarthol rôl glir o dan y cynllun yma ar gyfer gwella iechyd ein poblogaeth, drwy ganolbwyntio ar wytnwch cymunedol, rhwystrad, ymyriad cynnar a darparu gofal yn agosach i'r cartref. Bu i'r Bwrdd Rhanbarthol gyflwyno rhaglen drawsffurfiol ar gyfer y rhanbarth gyda chynlluniau / modelau penodol megis:

- Gwasanaethau di-dor ar gyfer pobl gydag anableddau dysgu
- Gyda'n Gilydd dros Iechyd Meddwl yng Ngogledd Cymru
- Ymyrraeth gynnar integredig ac ymyrraeth ddwys i blant
- Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol

I gyflawni'r uchod, cafwyd cydnabyddiaeth yn yr is-grŵp iechyd a gofal bod trefniadau llywodraethu integredig cadarn. Yn ystod cyfarfod ddiwethaf y Grŵp Integredig Iechyd a Gofal ym mis Mehefin cytunwyd ar 5 is-grŵp o'r Grŵp Integredig Iechyd a Gofal, a phwrpas y gweithdy ym mis Tachwedd oedd ailedrych ar y trefniadau llywodraethu hynny, ac ystyried defnyddio clystyrau a Chymru Iachach i lywio ein trefniadau llywodraethu. Mynegwyd pryder bod diffyg capasiti arweinyddiaeth yn nhrefniadau'r clystyrau yn bresennol. Nodwyd y bydd posib defnyddio arian o'r bidiau trawsffurfiol i ariannu adnodd ar gyfer datblygu'r clystyrau am gyfnod penodol chytunwyd ar yr is-grwpiau gweithredol canlynol :

1. Is Grŵp cyflawni Integredig Lles
2. Is Grŵp Cyflawni Integredig Plant a phobl ifanc
3. Is Grŵp Cyflawni Integredig Oedolion
4. Is Grŵp Iechyd Meddwl
5. Is Grŵp / Grwpiau Tasg a Gorffen

Cafwyd cytundeb yn y grŵp mai'r ffordd ymlaen i gyfarch y Cynllun Cymru Iachach oedd sefydlu trefniant llywodraethu gyda chlystyrau lleol yn atebol i'r Grŵp Integredig Iechyd a Gofal. Y cytundeb oedd mai gweledigaeth tymor hir oedd hyn, gan fod angen i'r clystyrau ddatblygu ac aeddfedu, ac awgrymwyd i adeiladu ar arfer dda a llwyddiannau presennol.

Cytunwyd mewn egwyddor i'r trefniadau llywodraethu diwygiedig.

4. Cyfathrebu ac ymgysylltu

Cyfeiriodd NH at gynllun Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a'r cynllun y Gallu i Greu – sef cyfres o newidiadau syml ar cyfle i wneud gwell penderfyniadau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Cyfeiriodd at un weithred yn benodol sef ymarfer 'fe ddywedoch chi fe wnaethom ni'. Mae tîm cefnogi'r Bwrdd bellach wedi dadansoddi'r adborth a dderbyniwyd yn ystod cyfnod ymgynghori ar y Cynllun Llesiant a'r bwriad yw rhannu'r canfyddiadau a'r gweithredoedd o ganlyniad iddynt (fe ddywedoch chi ac fe wnaethom ni) ar wefan Llesiant Gwynedd ac Ynys Môn a'r rhwydweithiau cymdeithasol perthnasol.

5. Diweddariad ar drefniadau craffu gwaith y BGC

Cafwyd diweddariad am drefniadau craffu'r BGC. Gofynnwyd i'r Bwrdd nodi fod trefniadau i sefydlu'r panel craffu ar y cyd ar fin cychwyn rhwng Awdurdodau Gwynedd ac Ynys Môn.

6. Gohebiaeth

Cyfeiriwyd at yr ohebiaeth a gylchredwyd at aelodau'r Bwrdd, mewn paratoad ar gyfer y cyfarfod.

7. Heriau a Chyfleon – eitem sefydlog

Dim newidiadau i'w cyflwyno

8. Dyddiad y Cyfarfod nesaf

Nodwyd manylion y trefniadau ar gyfer cyfarfod nesaf o'r Bwrdd ar 13 Mawrth, 2019 am 10yb yn Nhŷ Menai, Parc Menai, Bangor, Gwynedd.

Daeth y cyfarfod i derfyn am 16.05